

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE 28 September/9 November 1991  
No. 49


# CERAMIC SERIES

---

BRONWYN WILLIAMS-ELLIS

---

by Sheila Tyler



The work of Bronwyn Williams-Ellis is generous, bold and colourful. It combines folk-art spontaneity with classical sophistication. It is flamboyant, good-humouredly outrageous at times, often monumental, and memorable. That the work receives less exposure than warranted may have to do with the predominant form it takes: tiles. Historically significant in architecture, with the best achieving fine-art status, tiles nonetheless do not rate. "Potters don't rate them; artists don't rate them. If you make tiles... neither fish nor fowl nor good red herring."


This seemingly perverse attitude to tiles and tile-makers may be due in part to our historical awareness of tiles extending little further than 19th century Europe, and our somewhat categorical ideas about media. "There is some wonderful early, very powerful imagery that just happens to be made in clay and just happens to be glazed and fired. Some of it's 4000 years BC and it's a lot better than what we're doing now, in design, in the use of materials, the layout, the colour. It's like looking at a painting and it hums."

Bronwyn evolved into tile-maker following a BA and later an MA at Cardiff College of Art. Influences other than tiles impinge on the work: classical art, the human form, architecture, archaeology. Her fascination with the human form has to do with the visual and the psychological. Visually, figures are dramatic, exciting, geometric; generators of interesting negative spaces: "I have a sheer delight in the shapes that bodies make." There is a strong humanistic element in the work, an element characterized by a 'falling Icarus' figure which occurs frequently. The archetype is naked, damaged: "rather crouched and frightened, frightened of the world, curled over or falling." Michaelangelo, Rodin and Goya are the dynamic touchstone here. "Those three are the producers of human figures that are really real, live and terrified and like we all are - naked in the world." Bronwyn's figures are almost invariably male. "Male forms are more abstract than female forms on the whole; I can produce a more abstract expression of mankind; females are more comfortable, they're not frightened aliens in an outer world which the male figures tend to be. I don't think men are like that, it's just symbolism."

Mapped on to this are ideas emanating from the other great interest that informs Bronwyn's work. "I've always loved archaeology. I love finding bits of broken stuff. It's not the fact that it's broken, it's the fact that someone's rescued it, or repaired it or it's a reminder of another civilization. To me the little bits and pieces are a window onto a mirror that reflects our world because people weren't ever any different. A sherd is something that someone held centuries before; you have a link with their world and they were a person like you."

Thus the evocativeness of ceramic sherds is found in Bronwyn's work at times: a piece shattered during firing - or purposefully broken - may be reassembled in the manner of an archaeological find, adding another layer of meaning to the falling Icarus figures. "Breaking and rebuilding become a part of the making process. My work is problematical to a lot of people. I've been accused of dissipating my interests but to me these interests are like a very wide plaited braid with maybe 25 strands in it. Take the red thread - at a certain point it comes to the outer edge and at a certain point the other outer edge; if you keep on looking at the edge of that braid, all you see, every 25 strands, is that influence, that red colour; what you don't see is that it's interwoven all the way through." Sources of influence are used indirectly, however. "Only in retrospect can I identify them. I've looked at so many things over 15-20 years and it's got absorbed into my bones almost; finally a bit of it is coming out."

There are no ploys to shock or outrage; nothing about the work is so contrived. Rather it is that Bronwyn's larger-than-life character is spiced with a measure of dare-devil wickedness. "I'm really a very secret, quiet, reserved, restrained person. I never managed teenage rebellion but after 38 years I'm getting round to it slowly - I'm going to be really vulgar when I get older! I wouldn't be outrageous for the sake of being outrageous, that's not appropriate. But every now and again a little wickedness pushes me to do something different."



It is, perhaps, in the blood. Bronwyn's multifarious interests, her sensibilities and passions are not unusual in her family, one of Wales's oldest and the producer of colourful innovators including Sir Clough Williams-Ellis, the architect of Portmeirion, the Italianate village. Bronwyn grew up among strong but mannered personalities of both practical and creative vein. To find her, variously, restoring a mural in Hong Kong, painting one in Portmeirion, resurrecting a piece of family history, designing a garden, is to glimpse endowed, gentrified, resourcefulness.

Bronwyn's interest in tile-making evolved from the need for a bigger 'canvas' on which to make dynamic images (she has a theatrical sense of scale), though she still makes other objects, mostly arched framing devices and dishes - "It's a potter's thing" - even if the dishes are tile-like: don't look for rims or foot-rings. Strong, un-British colours are used - turquoise, blue and yellow are favourites - but do not overpower. Images may be sponge printed, stencilled or line-drawn, the latter via a technique known as *cuerda seca*, an old Moorish/Arab method in which hot wax mixed with manganese is applied by brush. The hot wax also prevents colours from bleeding. Not an easy technique to use, stray blobs of the medium are inevitable but add to the vitality and sense of movement. "In essence it produces a pen-and-ink quality, a strong graphic quality that is ceramic too."

Given work of such presence, it is perhaps surprising to find that Bronwyn supports herself via private commissions, ranging from small decorative panels to entire rooms of tiles, or pool surrounds. The work requires feats of organization, patience, and technical precision - tiles must fit spaces to the last fraction of an inch, and colours must match across production batches. For most commissions it is practicable to use industrial bisque tiles, something Bronwyn turns to advantage: "The use of a very fluid line on a very rigid industrial tile produces a lovely dichotomy. It produces life and energy, and very strong images." A similar contrast can be found in her personal work where the fluidity is embodied in the freely-worked clay surface and the clean lines in a stencilled image. British fondness for animals means that, for commissioned pieces, Bronwyn often does not work with the human form, but she treats the subject matter similarly. "As images, like human beings, animals produce dynamics, movement, abstract spaces; you know, you've got a goose that's getting aggressive, taking off at somebody... you've got an empty space on the wall where the wings and things aren't. They're exciting spaces." Colour and balance can be thorny problems when one is dealing with what amounts to the architect's 'waste spaces': difficult colours may have already been chosen for floors; electrical sockets and other fittings among the tiles may need counterbalancing in the overall design. Bronwyn, however, prefers to be brought in at a late stage to avoid constant adaptations. "I need to know within an eighth of an inch where everything is. You can't move the foot of that wonderful six-foot high nude two inches back to the right because there's no where to move it to; it isn't moveable. It can take three or four weeks to do the drawings alone and if the measurements are changed all those drawings have to be redone."

On the industrial bisque tiles, Bronwyn uses a white tin glaze which, when dry is handpainted or sponge-printed over with various oxides - copper, cobalt, manganese, antimony - to produce greens and turquoise, blues, purples and yellows. The tiles are then fired to 1020 or 1050 C depending on glaze in an 8 cubic foot top-loading electric kiln. In all Bronwyn's work, the techniques employed are those that allow for a bold, free hand and relatively prompt results. The technology is guided by a simple principle: "If it's simple and it works, I'll use it." When hand-making, Bronwyn uses earthenware clay but has no standard body - choices depend on the piece, availability and other factors. Oxide-stained slips are applied to the unfired clay, and roulettes and stamps are used at this stage too. The *cuerda seca* technique is used after bisque firing when the work is also glazed. Pieces are fired to 1050 C in the electric kiln, or occasionally subjected to a raku firing.

Large, dramatic work that demands physical and visual space, and sometimes pokes fun at our over-precious regard for objects or our pomposity isn't necessarily hard to live with, even if it intimidates some. Those who find a point of contact may discover it to be evocative but comfortable. Such evocativeness has something to do with the power of fragments: "Imagine finding the hands of Michaelangelo's David floating around somewhere, it would be almost better than the whole piece. If a piece of stuff is powerful enough it can evoke the whole that you're not capable of creating. It's a glimpse of something through a peep hole." As for comfort: "I think it's because my pieces are not new, they're battered, they're worn, they're familiar." Curiously, after all, Bronwyn's work is accessible, approachable.

© Aberystwyth Arts Centre, University College of Wales. Tel: (0970) 622887.

# GYFRES GERAMIC

BRONWYN WILLIAMS-ELLIS

gan Sheila Tyler



Mae gwaith Bronwyn Williams-Ellis yn hael, yn hyderus ac yn lliwgar. Mae'n cyfuno digymhellrwydd celfyddyd gwerin â chlasuriaeth soffistigedig. Mae'n goegwych ac yn hynaws anghymhedrol ar brydai, ond gan amlaf mae'n aruthrol a chofiadwy. Dichon ei fod yn derbyn llai o sylw nag a haedda oherwydd mai teils yn bennaf yw ei gyfrwng. Er bod iddynt arwyddocâd yn hanes pensaernïaeth, a bod yr enghreifftiau gorau wedi derbyn statws celfyddyd gain, nid yw teils fel pe baent yn cyfrif. "Nid yw crochenyddion yn rhoi pwys arnynt, ni rydd artistiad bwys arnynt. Os ydych chi'n cynhyrchu teils nid ydynt na'r naill beth na'r llall".

Gall fod yr agwedd ymddangosiadol wrthnysig hon tuag at deils a'u gwneuthurwyr yn deillio i raddau o'r ffaith nad yw ein hymwybyddiaeth hanesyddol o deils yn ymestyn yn ôl ymhellach nag Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hefyd o'n syniadau categoriol braidd am gyfryngau. "Ceir peth delweddaeth gynnar ryfeddol a hynod o bwerus sy'n digwydd bod wedi ei lunio o glai ac sy'n digwydd bod wedi ei wydredu a'i danio. Mae peth ohono wedi ei wneud bedair mil o flynyddoedd cyn Crist ac mae'n llawer gwell o ran cynllun, y defnydd o ddefnyddiau, y gweddlyn a'r lliw na'r hyn rydyn ni'n ei gynhyrchu heddiw. Mae fel edrych ar beintiad a hwnnw'n eich cyffroi".

Datblygodd Bronwyn yn wneuthurwr teils yn dilyn cwers BA ac yna gwrs MA yn Ngholeg Celf Caerdydd. Mae dylanwadau eraill ar wahân i deils yn effeithio ar ei gwaith: celfyddyd glasurol, y ffurf dynol, pensaernïaeth, archaeoleg. Mae ei diddordeb dwfn yn y ffurf ddynol yn ymwnéud â'r gweledol a'r seicolegol. Yn weledol mae'r ffigurau yn ddramatig, yn gyffrous, yn geometrig; pethau sy'n creu gofod negyddol diddorol: "Rydw i'n ymhyfrydu'n llwyr yn y ffuriau a gynhyrchir gan gyrrf". Mae elfen hiwmanistaidd gref yn y gwaith, elfen a nodweddir gan y ffigur o Icarws yn cwympo sy'n ymddangos dro ar ôl tro. Mae'r model gwreiddiol yn noeth a dolurus: "hytrach yn ei blyg ac yn ddychrynedig, yn ofni'r byd, yn cyrcydu neu'n cwympo". Michaelangelo, Rodin a Goya yw'r meinu prawf yma. "Mae'r tri ohonynt yn cynhyrchu ffuriau dynol sy'n wirioneddol real, byw a llawn arswyd ac fel pob un ohonom yn noeth yn y byd." Ffigurau gwryw yw rhai Bronwyn bron yn ddeithriad. "Ar y cyfan mae ffuriau gwryw yn fwy haniaethol na rhai benywaidd; gallaf gynhyrchu mynegiant mwy haniaethol o ddynoliaeth; mae ffuriau benywaidd yn fwy cyfforddus, nid estroiaid llawn arswyd mewn byd allanol mohonynt

fel y mae ffurffiau gwryw yn tueddu i fod. Nid wyf yn credu mai rhai felly yw dynion, symboliaeth yn unig ydyw."


Wedi eu gosod ar hyn y mae syniadau sy'n deillio o'r diddordebau pwysig eraill sy'n rhan o waith Bronwyn. "Rwyf wedi bod yn hoff o archaeoleg erioed. Byddaf wrth fy modd yn dod o hyd i dameidiau o bethau sydd wedi eu malurio. Nid y ffaith eu bod wedi torri sy'n bwysig, ond y ffaith fod rhywun wedi eu hachub neu eu hatgyweirio neu eu bod yn fy atgoffa o wareiddiad arall. I mi mae'r manion bychain hyn yn ffenestr ar ddrych sy'n adlewyrchu ein byd oherwydd yr un fu pobl erioed. Mae tamaid o grochenwaith yn rhywbeth y bu rhywun yn cydio ynddo ganriffoedd yn ôl; mae'n ein cysylltu â'u byd hwy ac roddynt hwythau'n bersonau fel ninnau.

Felly mae atgofusrwydd tameidiau o grochenwaith toredig i'w ganfod yng ngwaith Bronwyn ar brydiau: gall tamaid a ddrylliwyd yn ystod tanio - neu a faluriwyd yn fwriadol - gael ei ddodi wrth ei gilydd fel y gwneid â darganfyddiad archaeolegol, gan ychwanegu haen arall o ystyr i'r ffigurau o lcarws yn cwympo. "Daeth torri ac atgyweirio yn rhan o'r broses o lunio. Mae fy ngwaith yn peri dryswch i lawer o bobl. Rwyf wedi cael fy nghyhuiddo o afradloni fy niddordebau, ond i mi mae'r diddordebau hyn fel plethen lydan gyda thua phum ar hugain o geinciau ynddi. Dyna i chi'r edau coch - mewn man arbennig mae ar un ochr ac mewn man arall ar yr ochr gyferbyn; os daliwch i edrych ar ymylon y blethen, y cwbl y byddwch yn sylwi arno o'r pum cainc ar hugain yw'r dylanwad hwnnw, y lliw coch; yr hyn na fyddwch yn ei weld yw ei fod yn rhan o'r plethwaith o un pen i'r llall. Yn anuniongyrchol, foddy bynnag, y defnyddir ffynonellau'r dylanwad. "Dim ond wrth edrych yn ôl y byddaf yn gallu eu hadnabod. Rwyf wedi edrych ar gymaint o bethau dros gyfnod o 15-20 mlynedd ac maent wedi treiddio i fêr fy esgyrn bron; o'r diwedd mae ychydig ohonynt yn dechrau dod i'r wyneb".

Ni cheir unrhyw driciau i beri syndod neu i dramgwyddo; does dim byd mor ragordeiniedig ynglŷn â'r gwaith. Yn hytrach mae elfen o ddiawledigrwydd yn rhan o gymeriad lliwgar Bronwyn. "Mewn gwirionedd rwy'n berson cyfrinachol, hynod o dawel, swil a gochelgar. Lwyddais i erioed i wrthryfela yn ystod fy ardddegau ond ar ôl 38 o flynyddoedd rwy'n graddol gyrraedd y fan honno - rydw i am fod yn wirioneddol aflednais pan fyddaf yn hŷn! Fyddwn i ddim yn bod yn ffiadd er mwyn bod yn ffiadd, fyddai hynny ddim yn addas. Ond o bryd i'w gilydd mae rhyw ddiawledigrwydd yn fy ngorfodi i wneud rhywbeth gwahanol.

Efallai ei fod yn y gwaed. Nid yw diddordebau hynod amrywiol Bronwyn, ei synwyriadusrwydd a'i hemosiynau cryfion, yn anghyffredin yn ei theulu, un o deuluoedd hynaf Cymru a theulu sydd wedi cynhyrchu cymeriadau gwreiddiol lliwgar gan gynnwys Sir Clough Williams-Ellis, pensaer Porthmeirion, y pentref Eidalaidd. Magwyd Bronwyn ymhlið personoliaethau hynod a chryfion oedd a thuедdiadau ymarferol a chreadigol yn perthyn iddynt. Mae ei chanfod yn atgyweirio murlun yn Hong Kong, yn peintio un ym Mhorthmeirion, yn atgyfodi tamaid o hanes teuluol neu'n cynllunio gardd, yn rhoi cipolwg ar ddyfeisgarwch bonheddig, etifedol.

Datblygodd diddordeb Bronwyn mewn llunio teils o'r angen am 'ganfas' ehangach i greu delweddau deinamig (mae ganddi synnwyd graddfa theatrig), er ei bod yn parhau



i gynhyrchu gwrthrychau era ll. llestri a dyfeisiadau fframio bwaog yn bennaf - "Dyma'r math o beth sy'n apelio at grochenydd" - er bod y llestri yn ymdebygu i deils: peidiwch â chwilio am ymylon neu gylchau ar y gwaelod. Defnyddir lliwiau cryfion am-Mhrydeinig - glaswyrrd, glas a melyn yw'r hoff rai - ond nid ydynt yn llethol. Caiff lluniau eu peintio â sbwng, eu stensilio neu eu llinellu, yr olaf gyda thechneg a elwir yn cuerda seca, hen ddull Mwraidd/Arabaidd lle cymysgir cŵyr poeth â manganis a'i beintio â brws. Mae'r cŵyr poeth hefyd yn cadw'r lliwiau rhag rhedeg. Nid yw'n dechneg hawdd ei defnyddio, mae rhai smotiau cyfeiliorn o'r gymysgedd yn anochel, ond maent yn ychwanegu at y bywiogrwydd a'r ymdeimlad o symud. "Yn ei hanfod mae'n cynhyrchu ansawdd pen ac inc, ansawdd graffig gref sy'n geramig yn ogystal".

O weld ei bod yn cynhyrchu gwaith mor nodedig, efallai ei bod yn syndod mai (drwy gomisynau preifat y mae Bronwyn yn ennill bywoliaeth, comisiynau yn amrywio o banelau addurnol bychain i ystafelloedd cyfan wedi eu teilio neu deils i amgylchu pyllau o ddŵr. Mae'r gwaith yn gofyn am lawer iawn o <defn>, amynedd a manylwydd technegol - mae'n rhaid i'r teils ffitio i drwch y blewyn a rhaid i'r lliwiau gyfateb mewn sawl sypyn a gynhyrchir. Ar gyfer y rhan fwyaf o gomisynau mae defnyddio teils bisque diwydiannol yn ymarferol, ac mae hynny'n rhywbeth mae Bronwyn yn ei droi'n fantais. "Mae defnyddio llinell hynod o ystwyth ar deilsen ddiwydiannol hynod o anhyblyg yn cynhyrchu dicotomi hyfryd. Mae'n cynhyrchu bywyd ac egni a delweddu cryfion iawn. Ceir gwrthgyferbyniad cyffelyb yn ei gwaith <personol> lle mae'r hyblygrwydd yn cael ei ymgorffori yn yr arwyneb clai wedi ei weithio'n rhwydd ac yn y llinellau glân mewn darlun wedi ei <stensilio>. Mae'r hoffter Prydeinig o anifeiliaid yn golygu fod Bronwyn, mewn gweithiau comisiwn, yn aml yn cynhyrchu gwaith sydd ddim yn cynnwys y ffurf ddynol, ond mae hi'n rhoi'r un driniaeth i'r pwnc dan sylw. "Mae anifeiliaid, mewn lluniau, yn yr un modd â bodau dynol, yn cynhyrchu deinameg, symudiad a gofod haniaethol; fel y gwyddoch chi, pan gewch chi ŵydd sy'n dechrau troi'n ffyrnig ac yn ymosod ar rywun....mae gennych chi fannau gweigion ar y mur lle nad oes adenydd nac unrhyw beth arall. Mae'r lleoedd gwag hynny'n gyffrous. Gall lliw a chydbwysedd fod yn broblemau dyrys pan mae rhywun yn ymdrin â'r hyn sy'n 'fannau sbâr' y pensaer: efallai fod lliwiau anodd eisoes wedi eu dewis ar gyfer lloriau a dichon y bydd yn rhaid gwrthbwys o socedi trydan a mân daclau eraill ymhlið y teils yn y cynllun cyfan. Gwell gan Bronwyn, foddy bynnag, gael ei galw i mewn yn hwyr yn y dydd er mwyn osgoi'r addasu cyson ac anorfod. "Mae'n rhaid i mi wybod i'r dim lle mae pob peth. Does dim modd symud troed ffigur noeth rhagorol, chwe throedfedd o daldra, ddwy fodfedd yn ôl ac i'r dde gan nad oes unrhyw le i'w symud iddo; nid yw'n symudadwy. Gall gymryd tair neu bedair wythnos i baratoi'r lluniau'n unig ac os caiff y mesuriadau eu newid bydd yn rhaid ail-neud yr holl luniau o'r newydd.

Ar y teils bisque diwydiannol, bydd Bronwyn yn defnyddio gwydredd tun gwyn a fydd, wedi iddo sychu, yn cael ei beintio â llaw neu ei argraffu â sbwng ag amrywiol ocsidiau - copr, cobalt, manganis, antinomi - i gynhyrchu lliwiau gwyrrd, glaswyrrd, glas, porffor a melyn. Yna caiff y teils eu tanio i dymheredd o 1020°C neu 1050°C yn ôl y gwydredd a ddefnyddir mewn odyn trydan 8 troedfedd giwbig sydd yn cael ei llwytho drwy'r top. Yng ngwaith Bronwyn i gyd, y technegau a ddefnyddir yw'r rhai sy'n caniatáu canlyniadau hyderus, rhydd a chymharol fuan. Cyfarwyddir y dechnoleg gan egwyddor syml: "Os yw'n syml ac os yw'n gweithio, rwy'n barod i'w ddefnyddio." Pan fydd Bronwyn yn llunio â llaw, bydd yn defnyddio clai llestr pridd ond nid unrhyw glai safonol - mae'r dewis yn dibynnu ar y gwaith dan sylw, ac ar yr hyn sydd ar gael, ymhlið ffactorau eraill. Caiff slipiau staeniau ocsid eu rhoi ar y clai cyn ei danio, a defnyddir cylchoedd addurno a stampiau bryd hyn hefyd. Defnyddir y dechneg cuerda seca ar ôl y tanio cychwynnol a dyna pryd y caiff y gwaith ei wydreddu. Yna, bydd y gwaith yn cael ei danio i dymheredd o 1050°C yn yr odyn trydan, neu ei danio drwy'r broses raku o bryd i'w gilydd.

Nid yw gwaith mawr, dramatig sy'n hawlio gofod gwirioneddol a gweledol ac sydd ar brydiau'n gwneud hwyl am ben ein ffordd o roi pwys a gwerth gormodol ar wrthrychau neu am ben ein rhwysg, o angenrheidrwydd yn anodd dygymod ag ef, hyd yn oed os yw'n brawychu rhai. Bydd y rhai sy'n canfod rhyw gysylltiad â'r gwaith yn ei gael yn atgofus ond yn gyfforddus. Mae a wnelo atgofusrwydd o'r fath rywbeth â gym tameidau: "Dychmygwch ddarganfod dwylo Dafydd gan Michaelangelo ar ddamwain yn rhywle, byddai'n well bron na'r gwaith cyfan. Os yw tamaid o rywbeth yn ddigon pwerus gall ddwyn i gof y peth cyflawn nad oes gennych y gallu i'w greu. Mae fel cael cipolwg ar rywbeth drwy dwll y clo. A chyn belled ag y mae cysur yn y cwestiwn: "Rwy'n credu fod hynny'n bod oherwydd nad yw fy eitemau yn newydd, maent yn dolciog, yn dreuliedig, yn gyfarwydd. Yn rhifedd ddigon, er gwaethaf popeth, mae gwaith Bronwyn yn hygrych ac yn hawdd closio ato.